# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# (306)v4

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Cynhyrchu Ynni Lleol

(30 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Diweddariad ar y gweithredu gan Lywodraeth Cymru ar Lifogydd yng Nghymru

(30 munud)

## 5 Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016

(15 munud)

**NDM5910 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2015

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

## 6 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lles a Gwaith sy'n ymwneud â darpariaethau/diwygiadau i'r Bil ynghylch y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol

(15 munud)

**NDM5908 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Diwygio Lles a Gwaith, sy'n ymwneud â thlodi plant a symudedd cymdeithasol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2015 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i) a (iii).

Y Bil Diwygio Lles a Gwaith (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes

## 7 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Effaith a Chyrhaeddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2014-15

(60 munud)

**NDM5909 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Effaith a Chyrhaeddiad 2014-15 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2015.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad Blynyddol Effaith a Chyrhaeddiad 2014-15 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Cyflwynwyd y Gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi cyfeiriadau at hawliau pobl hŷn yn yr adroddiad effaith a chyrhaeddiad ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn i gyflwyno deddfwriaeth i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 13 Ionawr 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 7 Ionawr 2016 i'w hateb ar 12 Ionawr 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ffedereiddio ysgolion ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)2633(FM)

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith pwysau eithafol y gaeaf ar y GIG yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)2646(FM)

**3. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y llifogydd diweddar yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)2645(FM)

**4. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithdrefnau ar gyfer trosglwyddo asedau gan awdurdodau lleol? OAQ(4)2648(FM)**W**

**5. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa fesurau arbennig y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddileu tlodi plant erbyn 2020? OAQ(4)2641(FM)

**6. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl ardaloedd gwella busnes yng Nghymru? OAQ(4)2636(FM)

**7. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal llifogydd yn Llanddulas rhag digwydd eto? OAQ(4)2644(FM)

**8. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gapasiti unedau damweiniau ac achosion brys mewn ysbytai yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)2634(FM)

**9. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd mewn ymateb i lifogydd diweddar? OAQ(4)2647(FM)

**10. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn Nhorfaen?
OAQ(4)2649(FM)

**11. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon yng Nghymru am weddill tymor y Cynulliad hwn?
OAQ(4)2637(FM)

**12. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr asesiadau a wnaed o ran gwerth am arian prosiectau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yng Nghanol De Cymru?
OAQ(4)2635(FM)

**13. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi twf economaidd yn 2016?
OAQ(4)2643(FM)

**14. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyllid sydd ar gael i gyflwyno cynlluniau lliniaru llifogydd ac amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru?
OAQ(4)2640(FM)

**15. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am safonau yn ysgolion yng Nghymru?
OAQ(4)2642(FM)**W**

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 19 Ionawr 2016 a dydd Mercher 20 Ionawr 2016**
**Dydd Mawrth 26 Ionawr 2016 a dydd Mercher 27 Ionawr 2016**
**Dydd Mawrth 2 Chwefror 2016 a dydd Mercher 3 Chwefror 2016**

---

**Dydd Mawrth 19 Ionawr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd: Y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Prentisiaethau (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Y wybodaeth ddiweddaraf am yr agenda Diwygio Gwasanaethau Datganoledig (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Bathodynnau Glas (30 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016 (15 munud)
- Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014 - 2015 (60 munud)

**Dydd Mercher 20 Ionawr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)
- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Deddfu yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Lynne Neagle (Torfaen) (30 munud)

**Dydd Mawrth 26 Ionawr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2016 (15 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:  (cyfanswm o 10 munud)
    - Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 (5 munud)
    - Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffïoedd) (Cymru) 2016 (5 munud)
- Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Esemptiadau, Apeliadau ac Arolygiadau) (Cymru) 2016 (15 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (cyfanswm o 15 munud):

    - Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016 (10 munud)
    - Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016 (5 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Undebau Llafur y DU (15 munud)
- Bil yr Amgylchedd (Cymru) Cyfnod 3 (180 munud)

**Dydd Mercher 27 Ionawr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 01-16) (15 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 02-16) (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro) (30 munud)

**Dydd Mawrth 2 Chwefror 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2016 (15 munud)
- Dadl Cyfnod 4 ar Fil yr Amgylchedd (Cymru) (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (180 munud)

**Dydd Mercher 3 Chwefror 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (120 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i Gynlluniau Trafnidiaeth yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd (60 munud)
- Dadl Fer - Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru) (30 munud)